***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 963

# Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011

**Yr uchafswm rhesymol o ad-daliad neu gyfraniad sy'n daladwy**

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), yr uchafswm y caiff awdurdod lleol benderfynu sy'n swm rhesymol i D ei dalu tuag at y gost o sicrhau darpariaeth o wasanaeth ("uchafswm rhesymol") ("*maximum reasonable amount*") yw £50 yr wythnos.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4), pan fo gan D anghenion asesedig a fodlonir gan ddarpariaeth ddeuol, £50 yr wythnos yw uchafswm cyfanredol y symiau y caiff awdurdod lleol wneud yn ofynnol bod D yn eu talu mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno, fel—

(a) ffi, a

(b) taliad.

(3) Pan fo awdurdod lleol yn cyfrifo'r uchafswm rhesymol y caniateir gwneud yn ofynnol bod D yn ei dalu—

(a) rhaid iddo ddiystyru cost sicrhau unrhyw wasanaeth y mae'n codi ffi unffurf amdano, a

(b) caiff osod y ffioedd mewn perthynas â gwasanaeth o'r fath yn ychwanegol at yr uchafswm rhesymol.

(4) Pan fo D yn cael taliad uniongyrchol i'w alluogi i brynu cyfarpar y byddai awdurdod lleol, fel arall, yn ei ddarparu—

(a) rhaid i'r awdurdod lleol ddiystyru cost prynu'r cyfarpar wrth gyfrifo'r uchafswm rhesymol y caniateir gwneud yn ofynnol bod D yn ei dalu, a

(b) caiff wneud yn ofynnol bod D yn talu swm dros ben ac yn ychwanegol at yr uchafswm rhesymol, tuag at y gost o sicrhau'r cyfarpar.